scrutiny



# Adroddiad:
# Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion

## Adroddiad Blynyddol 2017-2018

CARDIFF
CAERDYDD

# CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION

# AELODAETH Y PWYLLGOR


Y Cynghorydd Ali Ahmed


Y Cynghorydd Joe Carter


Y Cynghorydd Asghar Ali


Y Cynghorydd Susan Goddard


(Cadeirydd)
Y Cynghorydd Mary McGarry


Y Cynghorydd Shaun Jenkins


Y Cynghorydd Kathryn Kelloway


Y Cynghorydd Sue Lent

# CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION

Craffu, mesur a hybu gwelliant ym mherfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes gwasanaethau cymunedol ac oedolion, gan gynnwys:

- Tai Cyhoeddus a Phreifat
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Diogelwch Cymunedol
- Adnewyddu Cymdogaethau a Chymunedau Nesaf
- Cyngor a Budd-daliadau
- Amddiffyn Defnyddwyr
- Strategaeth Pobl Hŷn
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Gwasanaethau Gofal Cymunedol
- Iechyd Meddwl a Nam Corfforol
- Strategaeth Comisiynu
- Partneriaeth Iechyd

Asesu effaith partneriaethau gydag adnoddau a gwasanaethau a gynigir gan sefydliadau allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau lleol ar y cyd, cyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd ar ganfyddiadau mewn cyfarfod Cabinet neu Gyngor priodol a gwneud argymhellion ar fesurau a allai wella perfformiad y Cyngor a gwasanaethau yn y maes.

Chwarae rôl Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn y Cyngor fel y bo angen dan Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ac unrhyw ailddeddfiad neu ddiwygiad ohoni yn ogystal ag fel dirprwy llawn i'r Cyngor i ddefnyddio ei holl rym a'i holl swyddogaethau dan y Ddeddf honno.

# RHAGAIR Y CADEIRYDD

Croeso i adroddiad cyntaf y weinyddiaeth hon. Mae wedi bod yn flwyddyn gyffrous i ni, gydag Aelodau newydd yn ymuno ac ailstrwythuro ar draws y gwasanaethau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn. Arweiniodd hyn at newid diwylliannol mawr yn y meysydd hyn, ac roeddem yn falch iawn o weld yr effaith gadarnhaol y mae hyn yn ei gael ar sut mae gwasanaethau'n cael eu cynnig o fewn y Cyngor, ynghyd â'r gwelliant mewn gwaith cydlynol gyda phartneriaid a'r trydydd sector – yn arbennig yn y maes gwasanaethau cymdeithasol oedolion.

Mae ein gwaith eleni wedi cynnwys ystod eang o bynciau. Rydym wedi craffu ar ddatblygiad gwasanaethau mewn gofal cymdeithasol oedolion, yn arbennig o amgylch meysydd o addewid Caerdydd i greu Dinas sy'n Deall Demensia; datblygiadau mewn Iechyd Meddwl Cymunedol; a Chynllun Gofal a Chymorth Caerdydd a'r Fro 2018-23. Bydd y datblygiadau mawr hyn yn atgyfnerthu ac yn ategu'r gwaith y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn ei wneud yn y dyfodol, ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu a bod ymrwymiadau y tu mewn iddynt yn cael eu cyflawni. Fel rhan o'r craffu parhaus hwn, byddwn yn parhau i fonitro perfformiad ym mhob maes perthnasol.

Gwnaethom edrych ar faterion yn ymwneud â thai a digartrefedd yng Nghaerdydd. Rydym wedi cael ein calonogi gan ymrwymiad y Cyngor i adeiladu 2000 o dai cyngor newydd yn y 10 mlynedd nesaf, ac yn cefnogi'r penderfyniad hwn. Canmolwn yr amrywiaeth o opsiynau y mae'r Cyngor yn eu hystyried i gyflawni hyn, ac eto byddwn yn dilyn y datblygiadau'n ofalus dros y flwyddyn i ddod.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried cynigion o ran gwasanaethau mewn cymdogaethau, yn arbennig cyflwyno'r rhaglen hybiau cymunedol.

Fel pwyllgor craffu trosedd ac anrhefn y Cyngor, gwnaethom graffu ar ddatblygiad y Strategaeth Economi'r Nos gan gymryd rhan mewn ymchwiliad mawr i sut mae gwerthu cyffuriau yn effeithio ar bobl ifanc yng Nghaerdydd.

Gyrrir ein holl waith gan ein hymrwymiad i sicrhau llywodraethu cadarn ar gyfer y Cyngor, y caiff dinasyddion leisio eu barn, bod newidiadau i wasanaethau yn arwain at welliannau cadarnhaol a bod y bobl hynny sy'n gyfrifol am adnoddau'r Cyngor yn cael eu dwyn i gyfrif i sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda.

Hoffwn ddiolch i holl Aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith caled a'u hymrwymiad dros y flwyddyn.  Hoffwn hefyd ddiolch i'r Aelodau Cabinet, y Swyddogion a'r tystion allanol a anerchodd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.  Yn olaf, dyma ddiolch i staff y Gwasanaethau Craffu, yn arbennig Alison Jones, ein Prif Swyddog Craffu, ac Andrea Redmond yn y Gwasanaethau Pwyllgor am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth.



**Y Cynghorydd Mary McGarry**
**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion**

# TROSOLWG

Mae gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion rôl bwysig o ran asesu perfformiad y gwasanaeth a rhoi gwybodaeth am ddatblygu gwasanaethau a pholisïau mewn ystod o wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys pob agwedd ar dai, adnewyddu cymdogaethau a gofal cymdeithasol i oedolion. Y Pwyllgor hefyd yw pwyllgor craffu'r Cyngor ar drosedd ac anhrefn.

Un o brif nodau'r Pwyllgor yw edrych ar bethau o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion a defnyddio hyn i wneud sylwadau ac argymhellion i'r Cabinet ar sail gwybodaeth. Rydym wedi gwahodd gofalwyr, eiriolwyr, dinasyddion, partneriaid a'r trydydd sector i gyfrannu at ein gwaith, yn ogystal â gwrando ar Aelodau a swyddogion y Cyngor a sefydliadau statudol ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

Rhwng mis Mehefin 2017 a mis Mai 2018, craffodd y Pwyllgor ar y testunau canlynol:

- **Cyn penderfynu** – Pan fo'r Pwyllgor wedi gwerthuso a gwneud sylwadau ar gynigion polisi cyn y Cabinet, sy'n rhoi cyfle i'r Cabinet wybod barn Aelodau'r Pwyllgor Craffu cyn penderfynu:
    - Strategaeth Economi'r Nos Caerdydd 2017-22
    - Polisi Gorfodi Awdurdod Trwyddedu Sengl
    - Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2017-18
    - Cynnig i ddatblygu Uned Hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Ranbarthol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg (WDTU)
    - Datblygu Darpariaeth Cyflogadwyedd Dinas Gyfan a dull newydd o adeiladu Cymunedau Cadarn
    - Caffael Gofal Cartref
    - Cynllun Cyflenwi Lleol Cefnogi Pobl
    - Cynllun Corfforaethol
    - Cynigion Cyllidebol
    - Cynllun Gofal a Chymorth Ardal Caerdydd a'r Fro 2018-23
    - Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2018/19
    - Ymestyn Contractau mewn perthynas â'r Gwasanaeth Byw â Chymorth i Oedolion ag Anabledd Dysgu

    - Adeiladu Cymunedau Gwydn drwy ddatblygu Hybiau Cymunedol ymhellach

- **Datblygu/Adolygu Polisi** – Pan fydd y Pwyllgor wedi cyfrannu at brosesau datblygu polisi, er enghraifft trwy ystyried dogfennau polisi drafft a/neu os yw'r Pwyllgor wedi ystyried gweithredu'r polisi, bydd yn ystyried a yw hyn wedi digwydd yn brydlon a beth fydd effaith y polisi, a bydd y Pwyllgor yn rhoi cyfle i'r Cabinet gael barn Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar b'un ai a oes angen gwneud newidiadau ai peidio:
    - Strategaeth Demensia ddrafft Caerdydd a'r Fro 2017-27
    - Digartrefedd ac Anghenion Tai

- **Monitro Cynnydd** – Pan fo'r Pwyllgor wedi monitro cynnydd y Cyngor wrth roi camau gweithredu y cytunwyd arnynt ynghynt ar waith:
    - Tai Cyngor Gwag – Adolygiad 12 Mis
    - Diweddariad Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

- **Monitro Perfformiad** – Pan fo'r Pwyllgor wedi monitro perfformiad y Cyngor:
    - Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17 (ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc)
    - Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Thai 2018/19
    - Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/19
    - Adroddiadau Perfformiad Chwarterol – Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion; a Chymunedau a Thai

- **Papurau Briffio**
    - Datblygiadau Arfaethedig ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol
    - Gwasanaethau Byw'n Annibynnol
    - Polisïau Gosod Blociau Fflatiau
    - Pwysau'r Gaeaf

Dros y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor Craffu 10 cyfarfod pwyllgor ac ysgrifennu 22 llythyr i'r Cabinet, at swyddogion a phartneriaid allanol yn rhannu ei sylwadau, argymhellion a phryderon yn dilyn craffu ar eitemau mewn cyfarfodydd pwyllgor. Ffurfiodd yr aelodau Banel Perfformiad, a gynhaliodd 4 cyfarfod y flwyddyn ddinesig hon.

## GWEITHREDU ARGYMHELLION SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU 2017/18

Wrth osod y rhaglen waith ar gyfer 2017/18 cytunodd Aelodau, i helpu i ffocysu'r agendâu yn fwy effeithiol a gwneud y gorau o'r effaith graffu ar bob eitem yn y Pwyllgor, y byddai Aelodau'n addasu'r ffordd y creffir ar faterion yn y dyfodol. Yn benodol, byddai cyfarfodydd Pwyllgor yn anelu at bara dim mwy na 3 awr, sy'n cyfateb i tua 2 eitem fawr ac 1 eitem lai, yn ôl argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae cyfleusterau gwe-ddarlledu ar waith yn Neuadd y Sir a Siambr Neuadd y Ddinas sy'n galluogi cyfarfodydd Pwyllgor Craffu, cyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio a chyfarfodydd y Cyngor Llawn i gael eu gwe-ddarlledu. Tan 31 Mawrth 2018, ni chafodd unrhyw rai o gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion eu gwe-ddarlledu, ond roedd hyn oherwydd lleoliad cyfarfodydd y Pwyllgor. Caiff cyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ym mis Mehefin 2018 ei we-ddarlledu.

## DATBLYGU AELODAU PWYLLGOR

Mae Craffu yn broses sy'n cael ei harwain gan aelodau y mae ei llwyddiant yn gysylltiedig iawn â gallu a chymwysterau aelodau'r Pwyllgorau Craffu. Felly gweithiodd y Tîm Craffu yn agos â chydweithwyr ar draws y Cyngor er mwyn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i aelodau i atgyfnerthu neu loywi eu sgiliau Craffu a gwella eu gwybodaeth a dealltwriaeth o sawl mater sy'n berthnasol i'w rôl Craffu.

Ym mis Mai 2017, cynhaliwyd etholiadau i'r Cyngor cyfan, a arweiniodd at nifer o Gynghorwyr newydd. I gynorthwyo'r Cynghorwyr newydd i ddeall y gwasanaeth craffu a'r cymorth a ddarperir gan y Cyngor, sefydlodd y gwasanaeth stondin graffu yn y sesiwn sefydlu i'r holl Aelodau ym mis Mai 2017.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor o Gadeiryddiaeth ac Aelodaeth y pum Pwyllgor Craffu, aeth y gwasanaethau Craffu ati i drefnu rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi er mwyn galluogi'r aelodau Craffu newydd i ddeall yn gyffredinol eu rolau, eu gweithgareddau a'u prosesau craffu. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyflwyniad i Graffu – Mehefin 2017
- Sgiliau Cadeirio – Mehefin 2017
- Sgiliau Holi – Gorffennaf 2017
- Hyfforddiant Cyllidebu – Chwefror 2018

# DATBLYGU POLISI A CHRAFFU CYN PENDERFYNU

Mae'r Aelodau wedi gwneud cryn dipyn o graffu cyn penderfynu a gwaith datblygu polisi yn gysylltiedig â materion Gofal Cymdeithasol, Cymunedau a Thai yn ogystal â chraffu ar Ddiogelwch Cymunedol a Throsedd ac Anhrefn. Mae manylion am rai o'r rhain ar gael isod ac yn yr adran nesaf; mae rhestr gyflawn o bynciau yn gynharach, ar dudalennau 6 a 7.

Wrth ystyried cyn penderfynu, dylai Aelodau:

i) edrych ar y wybodaeth a roddwyd yn yr adroddiad i'r Cabinet i weld a yw'n ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad hyddysg;
ii) gwirio adran goblygiadau ariannol adroddiad y Cabinet i fod yn ymwybodol o'r cyngor a roddwyd;
iii) gwirio adran goblygiadau cyfreithiol adroddiad y Cabinet i fod yn ymwybodol o'r cyngor a roddwyd;
iv) gwirio'r argymhellion i'r Cabinet i weld a yw'r rhain yn briodol.

## Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai

Yn ystod 2017/18, ystyriodd y Pwyllgor Gynllun 2017/18 (Gorffennaf 2017) a Chynllun 2018/19 (Mawrth 2018). Mae'r ddau adroddiad yn trafod:

- Cynnal Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)
- Rhaglen Tai Newydd, gan gynnwys Partneriaeth Cartrefi Caerdydd
- Cyflawni Effeithlonrwydd Ynni
- Ailfodelu ac Adnewyddu cartrefi presennol
- Adfywio'r Ystâd
- Gwaith Diogelwch Tân (2018/19, yn dilyn trychineb Grenfell)
- Adfywio Cymdogaethau a Gwella Ardaloedd
- Hybiau Cymunedol
- Cymorth i denantiaid, gan gynnwys cyfranogi, ymgynghori a chefnogi tenantiaid agored i niwed

Ar ôl ystyried Cynllun 2018/19, cytunodd Aelodau fod y Cynllun Busnes yn adlewyrchiad gwych o'r cynnydd a wnaed gan Aelodau a swyddogion, ac yn rhoi darlun clir, cryno o'r twf yn y Gwasanaeth hyd yma, yn ogystal â gosod ymrwymiadau ar gyfer y dyfodol. Roedd aelodau'n blês iawn â'r ymrwymiad i adeiladu 2000 o gartrefi newydd yn ystod y 10 mlynedd nesaf gan ganmol y camau gweithredu eraill a gymerwyd i wneud y gorau o'r opsiynau sydd ar gael o ran dod â chartrefi i mewn i berchnogaeth y Cyngor.

Dywedodd aelodau yr hoffent gael rhagor o wybodaeth am y 400 o eiddo nad ydynt yn rhan o ddatblygiadau Cartrefi Caerdydd. Roedd aelodau'n teimlo y dylai hyn gynnwys unrhyw oblygiadau sy'n codi o'r broses gaffael. Soniwyd bod y Cynllun Cartrefi Caerdydd wedi cymryd 2 flynedd i'w sicrhau, felly byddai angen sicrwydd ynghylch beth fydd yn digwydd o ran datblygiadau sy'n cael eu darparu gan ddatblygwyr eraill.

Nododd aelodau eu bod wedi'u siomi nad oedd mesurau effeithlonrwydd ynni eraill wedi'u hystyried mewn perthynas ag adeiladau newydd, megis paneli solar. Er eu bod yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o fesurau fyddai'n cael eu gosod, dywedasant y dylid ymchwilio i fesurau i daclo tlodi tanwydd hefyd.

*Dim angen ymateb – gofynnodd Aelodau i'r materion uchod gael eu hystyried yn ystod 2018/19*

## Tai Sector Rhent Preifat – Polisi Gorfodi Awdurdod Trwyddedu Sengl

Yn dilyn nifer o sesiynau craffu dros nifer o flynyddoedd mewn perthynas â Thai Sector Rhent Preifat, ym mis Gorffennaf 2017 ystyriodd Aelodau adroddiad yn nodi gofyniad Rhentu Doeth Cymru i weithredu Polisi Gorfodi i hyrwyddo dulliau effeithlon ac effeithiol o ran ei weithgareddau rheoliadol. Nod y Polisi yw hyrwyddo eglurder a chysondeb ledled Cymru ar y safonau i'w cymhwyso. Mae'r Polisi'n nodi ei fod am wneud hyn *'heb roi gormod o faich ar landlordiaid, asiantau rheoli a thenantiaid.'*

Roedd aelodau'n falch o glywed am lwyddiant Rhentu Doeth Cymru a bod (o fis Gorffennaf 2017) 80,000 o landlordiaid wedi cofrestru 164,000 eiddo dan y darpariaethau gorfodol yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Roedd aelodau'n fodlon bod y Polisi Gorfodi Trwyddedu Sengl wedi'i adeiladu mewn ymgynghoriad â holl awdurdodau lleol Cymru i

sicrhau nad oedd llawer o wrthdaro â'u polisïau gorfodi lleol eu hunain. Cydnabu'r Pwyllgor fod Caerdydd, fel y lleoliad sydd â'r nifer fwyaf o eiddo rhent preifat o bell ffordd yng Nghymru, yn gartref naturiol i Rhentu Doeth Cymru a datblygiad y Polisi Gorfodi Trwyddedu Sengl. Dywedodd aelodau y byddent yn monitro cynnydd Rhentu Doeth Cymru a'r Polisi Gorfodi Trwyddedu Sengl i daclo'r 20% o landlordiaid ac asiantau sy'n parhau i beidio â chydymffurfio.

*Dim angen ymateb – gofynnodd Aelodau i'r materion uchod gael eu hystyried yn ystod 2018/19*

## Dull gweithredu newydd o adeiladu Cymunedau Cadarn

Ystyriodd y Pwyllgor y mater hwn ddwywaith yn 2017/18 – ym mis Tachwedd 2017 ac ym mis Mai 2018, y ddau fel eitemau cyn penderfynu.

Ym mis Tachwedd 2017, ystyriodd Aelodau sut y byddai gwasanaethau'n cael eu comisiynu ar ôl i Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben. Ar y pwynt hwnnw, cynigiwyd y byddai gwasanaethau'r dyfodol yn cael eu targedu at:

- Wasanaeth Iechyd a Lles Dinas Gyfan
- Llwybrau i Ddysgu
- Dull dinas gyfan o Ymgysylltu a Chynnwys y Gymuned

Ar y pryd, cododd Aelodau bryderon am:

- Weithredu set o drefniadau ymarferol o fewn cyllideb sydd wedi lleihau'n sylweddol.
- Ceisio cymorth pellach ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr i'w galluogi i gyflawni'r rôl a roddwyd iddynt, gyda'r Cyngor neu bartneriaid yn cynnig cymorth – cynnig lleoliadau a chyfleusterau, rheolaeth ariannol a chymorth monitro, cymorth gyda threfniadau llywodraethu ac ati.

Ym mis Mai 2018, cafodd Aelodau adroddiad pellach ar *“Adeiladu Cymunedau Cadarn drwy Ddatblygu Hybiau Cymunedol Ymhellach”*. Roedd hyn yn cynnwys:

- Datblygu Hybiau Lles Cymunedol
- Dull newydd o Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn seiliedig ar yr Hybiau
- Datblygu Hyb y Llyfrgell Ganolog ymhellach

Roedd aelodau’n arbennig o falch gyda datblygiad pellach rhaglen yr Hybiau i ardaloedd nad oeddent wedi’u hystyried yn flaenorol fel rhan o’r rhaglen wreiddiol, gan felly gyrraedd amrywiaeth ehangach o bobl a chymunedau ledled y Ddinas.

Cafodd aelodau eu sicrhau y byddai’r cynigion yn cael eu cyflwyno’n gyson ledled y Ddinas ac y byddai’r gwaith o ddatblygu hybiau cymunedol o werth cyfartal i bob ardal.

Gwnaeth aelodau nodi a chefnogi’r angen i ymgysylltu’n drylwyr â’r gymuned ym mhob ardal a chawsant sicrwydd mai’r gymuned fyddai’n penderfynu pa wasanaethau fyddai’n rhan o’r Hyb. Teimlai aelodau fod cysylltu â’r gymuned yn hollol allweddol i lwyddiant Rhaglen yr Hybiau.

Fodd bynnag, roedd Aelodau’n poeni am y diffyg manylion o ran sut y caiff y rhaglen ei chefnogi’n ariannol a’i chynnal o ran cyfalaf a refeniw. Gofynnodd Aelodau i ragor o fanylion gael eu rhoi i’r Pwyllgor pan fyddent ar gael.

Roedd y Pwyllgor yn poeni’n arbennig am staff yr effeithir arnynt gan y cynigion – er bod Aelodau wedi cael gwybod na fyddai llawer o bobl yn colli eu swyddi, roeddent wedi’u siomi y byddai’r cynnig hwn yn arwain at hyn.

*Dim angen ymateb – gofynnodd Aelodau i’r materion uchod gael eu hystyried yn ystod 2018/19*

## Caffael Gofal Cartref

Yng Nghaerdydd, mae gofal cartref yn cael ei gomisiynu a'i gynnig drwy Restr Darparwyr Cymeradwy Ddeinamig (DAPL), wedi'i chefnogi gan system TG (sef Adam) sy'n sail i'r prosesau o gaffael a rheoli pecynnau gofal cartref. Mae pob pecyn yn mynd trwy broses 'tendro bach' lle bydd darparwyr cymeradwy sydd â diddordeb yn cyflwyno cynnig yn cynnwys eu pris a sut y byddant yn cyflawni amcanion y cleient. Mae tendrau bach yn cael eu gwerthuso ar bris ac ansawdd, ar sail 50/50, ac mae'r elfen ansawdd yn cynnwys gwerthusiad o sut y mae'r darparwr yn datgan y bydd yn cyflawni amcanion y cleient.

Bydd y contractau ar gyfer DAPL a'r system TG Adam yn dod i ben ar 3 Tachwedd 2018. Nododd yr adroddiad i'r Cabinet fod y Cyngor *'yn bwriadu ymrwymo i drefniant newydd gyda darparwyr i gomisiynu gofal cartref, i ddod i rym heb fod yn hwyrach na 4 Tachwedd 2018'.*

Ystyriodd Aelodau'r mater hwn ym mis Ionawr 2018. Gofynnodd Aelodau a oedd arfarniad opsiynau wedi'i gynnal ac am ddogfen arfarnu opsiynau ffurfiol.

Rhoddwyd papur briffio i'r Aelodau (dyddiedig 1 Chwefror 2018) a oedd yn nodi trosolwg o'r manteision a'r risgiau mewn perthynas â'r opsiynau canlynol a ystyriwyd gan y Cyngor:

- Rhestr Darparwyr Cymeradwy Ddeinamig (DAPL)
- Fframwaith
- Hybrid (Fframwaith + DAPL)
- Y Cyngor yn darparu'r holl ofal cartref yn uniongyrchol

Daeth swyddogion y Cyngor i'r casgliad y dylid parhau â'r DAPL y tu hwnt i fis Tachwedd 2018.

## Darpariaeth Byw â Chymorth

Ym mis Ebrill 2018, ystyriodd yr Aelodau *'Ymestyn Contractau mewn perthynas â'r Gwasanaeth Byw â Chymorth i Oedolion ag Anabledd Dysgu'*.

Roedd y model y cytunwyd arno mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn yn defnyddio contract bloc am dymor penodol o dair blynedd gyda'r opsiwn o'i ymestyn am gyfnod neu gyfnodau pellach o ddim mwy na dwy flynedd ar yr amod nad yw'r contract yn ymestyn y tu hwnt i 31 Gorffennaf 2020. Cyflwynwyd cynnig i'r Cabinet er mwyn iddo gymeradwyo ymestyn y trefniadau cytundebol presennol.

Roedd Aelodau'n falch iawn gyda'r gwaith a wnaed yn fewnol a gan gontractwyr cymeradwy i gyflwyno'r Gwasanaeth hwn. Roedd Aelodau'n fodlon gyda'r gwaith monitro ac adolygu trylwyr a wnaed i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gyflawni'n effeithiol gyda grŵp arbennig o fregus o bobl, gan gymeradwyo'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigiwyd ar draws amrywiaeth fawr o anghenion. Dylid canmol y newyddion taw dim ond 2 gŵyn a gafwyd o blith tua 320 o ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn yn destament i'r gwaith a wnaed gan y swyddog a'i thîm i gynllunio ar gyfer croesawu defnyddwyr newydd posibl i'r system.

Dywedodd Aelodau y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth am y bobl hynny sydd ar leoliadau y tu allan i'r sir ar hyn o bryd. Mae Aelodau'n awyddus i ddeall graddfa hyn, gan gynnwys faint o bobl sy'n cael eu cefnogi y tu allan i'r sir ar hyn o bryd a pha fath o gymorth sy'n cael ei gynnig mewn lleoliadau y tu allan i'r sir nad yw'n gallu cael ei gynnig yng Nghaerdydd. Teimlai Aelodau eu bod am ddod â rhai pobl yn ôl i'r ardal, ond roeddent yn poeni y gallai hyn gael effaith negyddol ar eu lles. Byddai Aelodau'r Pwyllgor yn croesawu crynodeb dienw o achosion i'w galluogi i ddeall lleoliadau y tu allan i'r sir yn well.

*Dim angen ymateb – gofynnodd Aelodau i'r materion uchod gael eu hystyried yn ystod 2018/19*

## Cynllun Gofal a Chymorth Ardal Caerdydd a'r Fro 2018-23

Gwnaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 osod adran 14A yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol baratoi a chyhoeddi cynllun (Cynllun Ardal) yn nodi ystod a lefel y gwasanaethau y maent yn cynnig eu darparu, neu drefnu i'w darparu, mewn ymateb i Asesiad Anghenion y Boblogaeth (AAB).

Rhoddodd y Cynllun Ardal a'r Cynllun Gweithredu ategol, a ystyriwyd gan Aelodau ym mis Mawrth 2018, ymateb Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro (CVGRPB) i ganfyddiadau'r Asesiad Anghenion y Boblogaeth (AAB) rhanbarthol, a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2017. Roedd y Cynllun wedi'i baratoi ar sail cyfnod o 5 mlynedd yn unol â'r gofynion ar gyfer paratoi'r AAB.

Roedd y Cynllun Ardal a'r Cynllun Gweithredu cyfatebol yn nodi trosolwg o sut mae'r Cynllun wedi'i ddatblygu, gan ddilyn Asesiad Anghenion y Boblogaeth, a gynhaliwyd rhwng Chwefror 2016 ac Ionawr 2017. At hynny, nododd y Cynllun sut y mae'n cyfrannu at amcanion a chanlyniadau lleol a chenedlaethol; a sut y caiff y Cynllun ei fonitro a'i adolygu.

Cytunodd Aelodau fod y Cynllun Gweithredu yn cynnwys ymrwymiad clir i waith mwy cydlynol, a'i fod yn dwyn ynghyd yr amrywiaeth o waith sydd eisoes yn digwydd ar draws CVGRPB a thu hwnt. Teimlai Aelodau fod y Cynllun wedi'i gyflwyno'n glir iawn a'i fod yn hawdd ei ddarllen, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau clir rhwng Amcanion Lles, Amcanion y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Uchelgais Prifddinas.

Yn gyffredinol, nododd y Pwyllgor y byddai diddordeb mawr ganddo mewn monitro gweithrediad y Cynllun Ardal a'r Cynllun Gweithredu yn ystod y flwyddyn i ddod ac, yn unol â'r materion a godwyd yn y Pwyllgor a'r llythyr dilynol, byddai'n arbennig o awyddus i gael diweddariadau ar y materion canlynol:

- Eglurder Trefniadau/Strwythurau Llywodraethu
- Diweddariadau/cynnydd gweithrediad blaenoriaethau sy'n dod dan gylch gwaith y Pwyllgor Craffu hwn, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu cyflawni gan Bartneriaid.
- Diweddariad ar unrhyw Gynllun Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
- Diweddariad ar sut mae dulliau ymgynghori ac ymgysylltu wedi'u symleiddio

*Dim angen ymateb – gofynnodd Aelodau i'r materion uchod gael eu hystyried yn ystod 2018/19*

# MONITRO CYNNYDD

Yn ystod 2017/18, cafodd y Pwyllgor Adroddiadau Cynnydd ar ddau fater yr oedd wedi craffu arnynt yn flaenorol fel Ymchwiliadau ac yr oedd wedi codi nifer o bryderon ac argymhellion mewn perthynas â hwy.

## Tai Cyngor Gwag

Yn 2015/16, cynhaliodd Panel Perfformiad y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion 'ymchwiliad manwl' i mewn i waith rheoli tai cyngor gwag yn dilyn perfformiad gwael dros nifer o flynyddoedd o ran yr amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i ail-osod tai cyngor gwag.

Cyfarfu'r Panel Perfformiad bedair gwaith i gyflawni'r ymchwiliad manwl, gan archwilio: arfer da;

- gwybodaeth sydd ar gael am berfformiad tai gwag;
- gwybodaeth feincnodi;
- gwersi allweddol gan waith craffu a arweiniwyd gan denantiaid yn Lloegr;
- gweithdrefnau a phrosesau perthnasol Cyngor Caerdydd; gan ymweld â nifer o eiddo gwag i weld ym mha gyflwr y maent yn cael eu rhoi yn ôl i'r Cyngor a'r safon sy'n cael ei chyrraedd cyn bod yr eiddo'n cael eu hail-osod

Lluniodd y Panel Perfformiad adroddiad, yn deillio o'r ymchwiliad manwl, a oedd yn cynnwys 16 argymhelliad. Derbyniwyd pob un ohonynt. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am ddiweddariadau pellach ar weithredu gwelliannau.

Cafodd Aelodau ddiweddariad ym mis Rhagfyr 2017 ac roeddent yn falch o weld gwelliannau sylweddol mewn perfformiad o ran trosiant eiddo gwag. Cawsant hefyd ddiweddariad ar drefniadau cytundebol newydd a fyddai mewn lle o fis Ionawr 2018. Roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r 'rhybudd' a gawsant gan swyddogion o ran y 'dirywiad' tebyg mewn perfformiad wrth i'r Cyngor symud o un set o drefniadau i'r llall.

Caiff hyn ei ystyried gan Banel Perfformiad y Pwyllgor yn y dyfodol, ond caiff hefyd ei fonitro'n agosach wrth i'r trefniadau newydd ymsefydlu.

Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r trefniadau gwell ar gyfer monitro trosiant, gyda 5 'math' o fonitro. Gofynnant, yn y dyfodol, i'r rhain cael eu hadrodd i Aelodau yn ôl 'math' er mwyn gallu cyflwyno darlun manwl.

Roedd Aelodau hefyd yn blês gyda'r weithdrefn gofal cwsmeriaid/cwyno newydd, ynghyd â'r didyniadau perfformiadau a ysgrifennwyd i mewn i'r contractau newydd. Yn dilyn trafodaeth ar gwynion (yn arbennig o ran contractwyr yn gadael llanast y tu allan i eiddo gwag) a phwysigrwydd rôl Aelodau yn helpu i adrodd cwynion, gofynnodd Aelodau i neges gael ei hanfon i bob Aelod yn nodi sut y gallant fod yn rhagweithiol yn rhoi gwybod am broblemau, yn arbennig dros y misoedd nesaf wrth i gontractwyr newydd gymryd rheolaeth o'r gwaith.

## Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Yn ystod 2015, cynhaliodd Aelodau o'r Pwyllgor Craffu Ymchwiliad i ***"Wybodaeth, Cyngor a Chymorth i Ddefnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd"*** o ystyried gofyniad newydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth gwasanaethau GCCh.

Gwnaeth yr Ymchwiliad 10 argymhelliad i'r Cabinet, yn cwmpasu:

- Dulliau Gweithredu
- Gwella Hygyrchedd
- Hyfforddiant
- Monitro

Cytunodd y Cabinet ar ei ymateb yn ei gyfarfod ym Mai 2016, gyda'r Pwyllgor Craffu yn ystyried ei ymateb ar 8 Mehefin 2016. Ar yr adeg honno:

  - ni dderbyniwyd yr un o'r argymhellion.
  - derbyniwyd 3 yn rhannol
  - ni dderbyniwyd 6

- nid oedd yn glir a oedd un ohonynt wedi'i dderbyn ai peidio

Fel rhan o ymrwymiad y Pwyllgor hwn i fonitro gweithrediad parhaus y Ddeddf, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn, wrth sefydlu'r Rhaglen Waith ar gyfer y flwyddyn bresennol, y byddent am gael diweddariad ar Wybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh) ar bwynt priodol.

Yn Ebrill 2018, cafodd Aelodau ddiweddariad a chanmol y gwaith a oedd wedi'i wneud ar ddatblygu'r Gwasanaeth GCCh. Dywedodd Aelodau eu bod yn edrych ymlaen at gael diweddariadau pellach wrth i'r gwasanaeth barhau i ddatblygu i mewn i wasanaethau iechyd meddwl a phlant, yn ogystal â datblygiadau gyda'r adran Iechyd. Nododd Aelodau'r gwaith sy'n cael ei wneud i atal pobl rhag mynd i argyfwng a'r dull gweithio seiliedig ar gryfderau a fabwysiadwyd gan y Gwasanaeth.

Cafodd Aelodau sicrwydd fod yr Hybiau'n cynnig gwasanaeth da a bod y system yn un effeithiol i unrhyw un sy'n ceisio GCCh dan y Ddeddf. Fodd bynnag, roedd Aelodau'n teimlo y dylid cydnabod bod gwasanaethau cynghori arbenigol yn cynnig gwasanaeth hanfodol i bobl sy'n agored i niwed (dan y Ddeddf neu'r tu hwnt i'w chylch gwaith). Gan ystyried hyn, argymhellodd Aelodau fod swyddogion yn cysylltu, yn y lle cyntaf, â Chanolfan Gynghori Glan-yr-afon i ddilyn rhai pwyntiau a wnaed yn eu cyflwyniad, yn arbennig mewn perthynas â'r llif o wybodaeth rhwng y Cyngor a'r Ganolfan Gynghori.

Cafodd Aelodau eu siomi nad oedd yr argymhellion a ddeilliodd o'r Adroddiad Craffu ar GCCh wedi'u defnyddio i ddatblygu'r gwasanaeth i ddefnyddwyr iechyd meddwl ymhellach. Byddai Aelodau'n annog adolygiad o ganfyddiadau'r Ymchwiliad i o bosib lywio gwaith pellach gyda defnyddwyr iechyd meddwl.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor yr hoffent gael diweddariad pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol yn nodi pa gynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â nodi'r galw am y gwasanaeth GCCh. Roedd Aelodau'n awyddus i sicrhau ei fod yn cael ei hysbysebu a'i hyrwyddo er mwyn annog defnydd o gyngor a gwasanaethau nad yw llawer o bobl o bosib yn gwybod amdanynt; ac i annog y rheini nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau ar hyn o bryd i fod yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael iddynt.

Cytunodd Aelodau yr hoffent glywed gan Weithwyr Cymdeithasol mewn cyfarfod yn y dyfodol i gael eu barn ar y newid diwylliannol a'r newidiadau i arferion gwaith yn dilyn gweithredu'r Ddeddf.  At hynny, byddai Aelodau am glywed gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth am eu profiadau'n defnyddio'r gwasanaeth GCCh.  Caiff hyn ei drefnu yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2018/19.

# CRAFFU DIOGELWCH CYMUNEDOL A THROSEDD AC ANHREFN

Yn ystod 2017-18, mae Aelodau wedi gwneud y gwaith canlynol i gyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer craffu ar waith y Bartneriaeth Trosedd ac Anhrefn a diogelwch cymunedol yng Nghaerdydd:

## Strategaeth Economi'r Nos Caerdydd 2017-22

Ym mis Tachwedd 2017, ystyriodd yr Aelodau'r Cynllun "Creu Economi Nos Ddiogel a Chroesawgar" 2017-22 a ddatblygwyd mewn partneriaeth drwy Grŵp Llywio Economi'r Nos, sy'n is-grŵp o'r Bwrdd Rhaglen Cymunedau Diogelach a Chydlynol, sydd yn ei hun yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd.

Roedd Aelodau'n blês ag ymrwymiad y Cyngor a'i bartneriaid i weithio ar y mater hynod bwysig hwn i Gaerdydd.

Cydnabu'r Pwyllgor yr heriau parhaus a wynebir o ran cyllid, ond nododd Aelodau y byddent am weld ymrwymiad i drefniadau cyllido ar draws y bartneriaeth, cyn gynted â phosib, i sicrhau y gellir cyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn nogfen y Strategaeth.

Roedd Aelodau'n poeni am y ffaith nad oedd pobl ddigartref yn defnyddio gwelyau mewn hosteli yn y Ddinas, yn arbennig oherwydd pryderon diogelwch. Nododd Aelodau eu bod yn teimlo bod hyn wedi bod yn broblem barhaus ers nifer o flynyddoedd ac felly y byddent yn gofyn am wybodaeth bellach am sut mae hyn yn cael ei ddatrys i sicrhau bod pobl ddigartref ar y stryd yn cael cynnig gwely a'r cyfle i fod yn ddiogel mewn hostel.

## Atal Pobl Ifanc rhag bod yn rhan o Werthu Cyffuriau

Ym mis Medi 2017, cytunodd Aelodau i gymryd rhan mewn cyd-Ymchwil Craffu gyda'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn edrych ar effeithiau gwerthu cyffuriau ar bobl ifanc yng Nghaerdydd. Mae'r Cynghorwyr McGarry a Kelloway o'r Pwyllgor hwn yn eistedd ar y Grŵp Gorchwyl.

Gan fod y Pwyllgor hwn yn gyfrifol am graffu ar drosedd ac anrhefn, cytunwyd y byddai rhan o'r Ymchwiliad yn cynnwys edrych ar drefniadau gweithio'r ffrwd waith Cymunedau Diogelach a Chydlynol o'r BGC mewn perthynas â'r mater hwn.

Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad yw:

**Nodi ac Ymchwilio**

- Y ffactorau cyfrannol sy'n arwain at bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwerthu cyffuriau a throseddau cyllyll sy'n gysylltiedig â gangiau yn y ddinas
- Y ffactorau cyfrannol y gall cymunedau eu rhoi ar waith i ddiogelu ac atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn gwerthu cyffuriau a throseddau cyllyll sy'n gysylltiedig â gangiau yn y ddinas
- Pennu effeithiolrwydd polisïau a gwasanaethau presennol o ran diogelu ac atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn gwerthu cyffuriau a throseddau cyllyll sy'n gysylltiedig â gangiau yn y ddinas.
- Nodi arfer da.
- Penderfynu sut gall asiantaethau statudol weithio orau gyda chymunedau i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth am wasanaethau a'r cymorth sydd ar gael a'u bod yn hyderus i roi gwybod am bryderon.
- Gwneud argymhellion i'w cyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen Cymunedau Diogelach a Chydlynol

Disgwylir y bydd yr Ymchwiliad hwn yn digwydd tan ddiwedd Mehefin 2018, gyda'r adroddiad yn cael ei ystyried gan y ddau Bwyllgor yn hydref 2018.

# CYNLLUN CORFFORAETHOL A CHYLLIDEB

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn galluogi pwyllgorau craffu i ystyried cynigion cyllidebol drafft y Cabinet cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn. Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Corfforaethol drafft y Cyngor a'r cynigion cyllidebol drafft ar gyfer 2018-19, gan gynnwys cynigion arbed manwl a'r Rhaglen Gyfalaf yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2018. Adolygodd y Cynllun Corfforaethol drafft a'r cynigion arbedion cyllidebol.

Nododd y Pwyllgor lawer o faterion ynghylch adroddiadau'r Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb Gorfforaethol a Chyllideb y Gyfarwyddiaeth. Cafodd y pryderon hyn eu cynnwys mewn llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad i'w ystyried wrth iddo adolygu'r Cynllun Corfforaethol cyffredinol, yr Ymgynghoriad a'r cynigion Cyllideb ar 13 Chwefror 2018 ac i'r Cabinet i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror 2018.

Ystyriodd y Cabinet a'r Cyngor Llawn lythyr y Pwyllgor yn ystod eu trafodaethau ar y cynigion.

# MONITRO PERFFORMIAD

Mewn ymateb i Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru 2014, mae'r Pwyllgor wedi sefydlu Panel Monitro Perfformiad i graffu ar adroddiadau perfformiad chwarterol a dadansoddi'n ddwys fel bo angen, y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref 2017, cytunodd dau Aelod i gymryd cyfrifoldeb am gynnal cyfarfodydd chwarterol, a phe bai unrhyw bryderon yn codi byddent yn cysylltu â'r Aelodau Cabinet/Swyddogion priodol i roi ymatebion naill ai i'r Panel Perfformiad neu i'r Pwyllgor llawn. Hyd yma, nid yw'r Panel Perfformiad wedi codi unrhyw bryderon penodol.

# GWAITH CRAFFU YN Y DYFODOL

Yn ystod 2017/18, nodwyd nifer o faterion fel Eitemau ar gyfer y Rhaglen Waith, ond nid oedd modd eu hystyried oherwydd pwysau amser. At hynny, cododd nifer o faterion o drafodaethau'r Pwyllgor ar Eitemau. Felly, gallai'r canlynol gael ei ystyried ar gyfer Rhaglen Waith 2018/19.

- Diogelwch mewn Parciau
- "Atal Trosedd trwy Ddylunio" mewn Cymunedau Newydd
- Strategaeth Cysgu ar y Stryd
- Strategaeth Digartrefedd ac Anghenion Tai
- Strategaeth Llety Pobl Hŷn, gan gynnwys briff gan AGGCC ar Gartrefi Gofal yng Nghaerdydd
- Gwaith Lleol a Phartneriaethau Cymdogaeth
- Lles Staff Gofal Cymdeithasol
- Diweddariad Polisi Gorfodi Trwyddedu Sengl
- Strategaeth Demensia Caerdydd a'r Fro 2017-27
- Adolygiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol
- Adolygiad o Wiriadau Diogelwch mewn Blociau Fflatiau
- Cynllun Cyflenwi Lleol Cefnogi Pobl
- Cynllun Ardal Caerdydd a'r Fro ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth 2018-23
- Tai – Caffael Contractwyr Adeiladau Newydd
- Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth – Barn Defnyddwyr
- Gwasanaethau Byw â Chymorth i Bobl ag Anabledd Dysgu – Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir
- Rhaglen Hybiau Cymunedol a Lles
- Diogelu Oedolion, gan cynnwys Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Oedolion Caerdydd a'r Fro a'r Adroddiad Diogelu Corfforaethol.
- Adroddiadau Perfformiad.
- Adroddiadau Arbedion.
- Adroddiadau Archwilio, Ymchwilio a Rheolaethol perthnasol.
- Ymatebion y Cabinet i Ymholiadau Blaenorol
- Gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt wedi Ymholiadau blaenorol.